# Dathlu a chyfranogi – canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU**

**Adran 1**

**Adran 8**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

## ADRAN 1

### PA GAMAU GWEITHIREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau newydd i ymarferwyr addysg er mwyn cefnogi addysg dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Diben y canllawiau hyn yw rhoi enghreifftiau cyfredol o ymarfer effeithiol sy'n dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ysgolion a lleoliadau addysg, fel y gallant fanteisio i'r eithaf ar eu haddysg a chyflawni eu potensial llawn. Bydd yn disodli'r ddogfen ganllaw ar addysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gyhoeddwyd yn 2008 – Symud Ymlaen: Cylchlythyr Addysg i Sipsiwn-Teithwyr 2008. Gweler y ddolen: symud-ymlaen-addysg-i-sipsiwn-teithwyr.pdf (llyw.cymru)

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw creu Cymru sy'n wirioneddol wrth-hiliol erbyn 2030. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth mesuradwy ar y cyd i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n canolbwyntio ar fod yn agored ac yn dryloyw, rhoi profiadau bywyd pobl wrth wraidd y gwaith a wnawn a mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu sy'n cynnwys ymrwymo i ddiwallu anghenion plant o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy gyhoeddi canllawiau newydd i ysgolion.

Rydym yn cyhoeddi'r canllawiau i wella deilliannau addysgol dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y canllawiau yn codi ymwybyddiaeth o anghenion penodol dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion a lleoliadau addysg, ac yn arwain at leihau anghydraddoldebau addysgol. Dylid hefyd olygu cynnydd a gofnodir mewn hyder a dealltwriaeth mewn ysgolion ac arwain at amgylchedd mwy cynhwysol a chroesawgar i ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at lefelau presenoldeb uwch a mwy o ddysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dewis aros mewn addysg.

Rydym wedi cyd-awduro'r canllawiau hyn â rhanddeiliaid allweddol o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc, yn ogystal ag awdurdodau lleol a Gwasanaethau Addysg i Deithwyr lle mae'r rhain ar gael.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi enghreifftiau o ymarfer effeithiol sy'n dangos ffyrdd o weithio i gefnogi dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gyda'r enghreifftiau yn dod o waith darparwyr Gwasanaethau Addysg i Deithwyr ac ysgolion ledled Cymru. Maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth ehangach am feysydd a gweithgareddau polisi addysg

eraill, yn ogystal â fframweithiau ysgol cyfredol a chyngor i athrawon, llywodraethwyr ysgol a'r rhai sy'n gweithio gydag ysgolion.

**Yn yr hirdymor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a darpariaeth gyfartal, a thegwch o ran deilliannau addysg i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym am sicrhau bod pob dysgwr, nawr ac yn y dyfodol, yn cael ei gefnogi i gyflawni ei botensial, ni waeth beth fo'i gefndir na'i amgylchiadau personol. Rydym am i bob dysgwr gael ei helpu a'i gefnogi i fod yn wydn, yn ddychmygus, yn uchelgeisiol ac i anelu'n uchel.

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn amrywiol, ac mae gwahaniaethau mawr mewn agweddau tuag at yr ysgol a dysgu, rhwng pob cymuned, o fewn teuluoedd a rhwng unigolion. Mae gan bob cymuned o Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei hanes, ei diwylliant a'i ffordd o fyw unigryw, sy'n cynnwys traddodiadau crwydrol, ynghyd â strwythur cymunedol cynyddol sefydlog – gyda llai o deuluoedd yn teithio'n fynych a mwy yn byw mewn llety brics a morter.

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynnwys sawl grŵp ethnig a diwylliannol megis Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Roma mudol, a grwpiau diwylliannol megis Teithwyr Newydd a Theithwyr Galwedigaethol. Mae'r term ‘Teithiwr sy'n Sipsi’ yn cynnwys Teithwyr Gwyddelig, Sipsiwn/Teithwyr Cymreig, Seisnig ac Albanaidd a Sipsiwn Romani. Mae'r term ‘Teithiwr Galwedigaethol’ yn cynnwys y rhai sy'n perthyn i gymunedau sioe, ffair a syrcas traddodiadol. Mae hefyd yn cynnwys badwyr a busnesau a chartrefi teuluoedd dyfrffyrdd eraill.

Disgrifir ‘Teithwyr Newydd’ fel grŵp yn y DU a ddatblygodd yn y 1960au. Roeddent yn arfer cael eu galw yn ‘Deithwyr Oes Newydd’, gynt ond mae llawer wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ‘Oes’ ac mae'n well gan eraill gael eu galw'n Deithwyr yn unig. Gall y term ‘Teithiwr’ gael ei ddefnyddio weithiau i gyfeirio at grwpiau gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod diwylliannau a ffyrdd o fyw amrywiol grwpiau gwahanol. Felly, rydym yn defnyddio'r term ‘Roma mudol’ i gyfeirio at y grwpiau Romani hynny a oedd wedi ymgartrefu am gyfnod yng nghanol a dwyrain Ewrop ac sydd bellach wedi mudo i Gymru (yn bennaf ers ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn 2004). Gall hyn gynnwys Roma, Sinti, Ashkali ac ‘is-grwpiau’ eraill. Defnyddir y term ‘Roma’ mewn ymdrech i sicrhau cyn lleied o ddryswch â phosibl am ei fod yn gyson â'r term a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd ac yn adlewyrchu'r grŵp Romani mwyaf poblog yn Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term ‘Sipsiwn a Theithwyr cynhenid’ i gyfeirio at Romani, Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig, a grwpiau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o grwydro neu fyw mewn carafanau, sy'n frodorol i Gymru.

Yn y canllawiau mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r term ambarél ‘Sipsiwn, Roma a Theithwyr’ i gynnwys yr holl grwpiau diwylliannol gwahanol a nodir uchod. Mae gan unigolion ym mhob cymuned yr hawl i arddel eu hunaniaeth eu hunain ac i'r hunaniaeth hon gael ei chydnabod a'i pharchu gan y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Mae'n bwysig cydnabod a dathlu holl gyflawniadau dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg.

Yn hanesyddol, oherwydd nifer o rwystrau, mae llawer o ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi methu â chyflawni eu potensial llawn ym maes addysg, a dysgwyr o'r cymunedau hyn sydd â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o hyd o ran cymwysterau addysgol.

Yn aml, gall plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wynebu hiliaeth a gwahaniaethu yn amgylchedd yr ysgol, yn ogystal â'r tu allan i'r ysgol, a gall hyn arwain at agweddau negyddol gydol oes tuag at yr ysgol ac addysg i blant.  Gall y rhwystrau hyn atal plant a phobl ifanc rhag cael y buddiannau sy'n gysylltiedig â symud ymlaen i addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch, neu ddysgu seiliedig ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i leihau a dileu nifer y digwyddiadau hiliol a'r achosion o fwlio, a'u heffaith, a wynebir gan blant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym hefyd am helpu ysgolion a lleoliadau addysg i ddeall a dathlu diwylliannau a thraddodiadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal â'u hanghenion penodol mewn addysg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff statudol, ysgolion a lleoliadau addysg, yn ogystal â'n cymdeithas yn fwy cyffredinol, i wella a chynyddu'r cymorth i blant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys deilliannau dysgu a llesiant dysgwyr.  Mae'n elfen hollbwysig o'r amcan i greu ac ymgorffori system addysg wrth-hiliol ledled Cymru.

**Atal**

Cefnogir pob dysgwr i fod yn ddinesydd iach, ymgysylltiol, blaengar a moesegol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Mae'n hanfodol rhoi profiad addysgol cadarnhaol i bawb, gyda dysgwyr a staff yn cael eu cefnogi o ran eu llesiant a'u gwydnwch, er mwyn gwella deilliannau addysgol a chyfleoedd mewn bywyd.

Mae'rcanllawiau hyn yn anelu at fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, drwy roi arweiniad a chymorth i ysgolion a lleoliadau addysg er mwyn eu helpu i ddeall anghenion penodol y cymunedau hyn yn well. Er enghraifft, gall y broses o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd fod yn her i rai dysgwyr – mae'r canllawiau yn rhoi cyngor ymarferol ac yn defnyddio enghreifftiau o ymarfer effeithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn.  Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin cydberthnasau ymddiriedus â rhieni o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a fydd hefyd yn helpu i ddeall eu hanghenion penodol yn well.

Rydym yn cydnabod y gall cyrhaeddiad addysgol da fod yn borth i sefydlogrwydd, diogelwch a bywyd boddhaus ac annibynnol yn y dyfodol. Ein nod yw sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, mewn mannau dysgu cefnogol, diogel a chynhwysol, lle nad oes unrhyw wahaniaethu na bwlio.

Mae'r canllawiau yn rhoi pwyslais ar ysgolion yn mynd ati'n rhagweithiol gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd, cymunedau, Gwasanaethau Addysg i Deithwyr awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cyrhaeddiad Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol ac eraill, i annog a gwella presenoldeb yn yr ysgol a'r broses bontio, er mwyn i ddysgwyr aros mewn addysg a chael budd ohoni.

**Integreiddio**

O safbwynt strategol, mae'r canllawiau wedi'u diweddaru hyn yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: Cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial. Maent hefyd yn gysylltiedig â Cenhadaeth ein Cenedl, safonau a dyheadau uchel i bawb a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru ffyniannus – i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig.

[Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU]

[Adroddiad Blynyddol 2023 Llywodraeth Cymru]

[Cenhadaeth ein Cenedl | LLYW.CYMRU] ac [Addysg: Cenhadaeth ein Cenedl | LLYW.CYMRU]

[Llesiant cenedlaethau'r dyfodol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

Mae'r canllawiau yn gysylltiedig ag amrywiaeth eang o bolisïau a gallant gefnogi gwelliannau yn lefelau cyrhaeddiad addysg plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr; eu hiechyd a'u llesiant drwy fynd i'r afael â hiliaeth a bwlio; codi ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol ymhlith poblogaeth ehangach yr ysgol; a gwella rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â rhai o achosion tlodi ymhlith unigolion a chymunedau.

### Cydweithio

Y partneriaid allweddol sydd â diddordeb yn y canllawiau wedi'u diweddaru hyn yw ysgolion a darparwyr addysg, Estyn, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, ac asiantaethau eraill sydd â diddordeb yng nghymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac mewn gweithio gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau yn y trydydd sector, yn enwedig sefydliadau a phrosiectau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda ac ar ran cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Fforwm y Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cynnwys Gwasanaethau Addysg i Deithwyr awdurdodau lleol, yn ogystal â lleoliadau addysg sydd eisoes yn cynnig ymarfer effeithiol i gefnogi dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er mwyn casglu eu barn ar gynnwys y canllawiau hyn (a rhoi cyfle iddynt gyfrannu atynt). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda Grŵp Cymunedau Ethnig Lleiafrifol a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yr Awdurdodau Lleol wrth ddatblygu'r canllawiau hyn.

Dylai'r buddiannau sy'n gysylltiedig â chydweithio agos rhwng darparwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr olygu bod y canllawiau hyn yn cynnig budd clir a chadarnhaol i weithwyr proffesiynol ym maes addysg, a thrwy hynny fudd i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.

### Cyfranogiad

Aeth Llywodraeth Cymru ati i geisio barn y Grŵp Rhanddeiliad Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynglŷn â'r heriau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu i gael addysg, yn ôl canfyddiad y grŵp. Drwy sampl o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn saith ardal awdurdod lleol wahanol, cawsom safbwyntiau plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynglŷn â'u profiadau o addysg, a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Mae swyddogion polisi addysg ledled Cymru wedi ymgysylltu i ddatblygu'r canllawiau hyn. Mae'r timau polisi yn cynnwys meysydd Cydraddoldebau a Hawliau Dynol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Ystadegau, Cymunedau a Threchu Tlodi, Addysg Bellach ac Addysg Uwch a chynghorwyr addysg proffesiynol.

Ar ôl datblygu'r canllawiau drafft, cynhaliwyd cyfarfodydd pellach â chynrychiolwyr cymunedol a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn ystod haf 2023, er mwyn ceisio safbwyntiau a sylwadau cyn eu cyhoeddi.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wrthi'n ymgymryd â phrosiect ar brofiadau o hiliaeth a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion uwchradd. Bydd yn gwneud argymhellion cychwynnol a

lywir gan safbwyntiau disgyblion, addysgwyr a rheoleiddwyr ar gryfhau ymateb ysgolion i hiliaeth.

Bydd canlyniadau a chasgliadau adroddiad y Comisiynydd yn llywio trafodaethau yn y dyfodol ynglŷn ag effaith y canllawiau, a'r gwaith ehangach i helpu ysgolion i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hiliaeth. Bydd hefyd yn rhoi cyd-destun a gwybodaeth bwysig i adolygu a diweddaru'r gyfres bresennol o ganllawiau gwrthfwlio statudol Llywodraeth Cymru, Hawliau, Parch, Cydraddoldeb.

**Effaith**

Nid oes unrhyw ddadleuon wedi cael eu cyflwyno yn gwrthwynebu llunio a chyhoeddi'r canllawiau newydd, sy'n anelu at ddiweddaru a disodli cylchlythyr cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, “Symud Ymlaen”, a gyhoeddwyd yn 2008.

Mae'r dystiolaeth a nodwyd drwy gydol yr asesiad effaith hwn ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn awgrymu y dylai'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan ysgolion a lleoliadau addysg ar hyn o bryd gael effaith gadarnhaol a sicrhau manteision i ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu nifer o broblemau megis gwahaniaethu, hiliaeth a bwlio. Efallai y bydd angen cymorth iaith ychwanegol ar rai ohonynt. Mae'n hanfodol ein bod yn gwella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol ym maes addysg o ddiwylliannau, hanes, rhwystrau a bywydau beunyddiol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Un ddadl allweddol o blaid llunio'r canllawiau yw'r ffaith bod y gweithlu addysgu presennol yng Nghymru yn methu ag adlewyrchu'n llawn y cymunedau sy'n byw, yn dysgu ac yn gweithio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nid oes digon o athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, sy'n chwarae rôl ehangach o ran yr angen i wella dealltwriaeth ac arferion mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Caiff ffurflenni'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion eu cwblhau gan bob ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol ac maent yn adlewyrchu'r gweithlu ar ddyddiad y Cyfrifiad: Canlyniadau'r Cyfrifiad o'r Gweithlu Ysgolion: ym mis Tachwedd 2022 | LLYW.CYMRU

Mae canlyniadau'r cyfrifiad mwyaf diweddar yn dangos bod 1.2% o athrawon o ethnigrwydd Du, Asiaidd, Cymysg neu Arall, gyda chyfran lai o athrawon o gefndir ethnig leiafrifol yn arweinwyr (0.6%). Gweler hefyd y data ystadegol yn: Athrawon (cyfrif pennau) yn ôl ethnigrwydd a sector (llyw.cymru)

Rydym yn cyflwyno strategaeth i recriwtio mwy o athrawon o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu addysg. Ym mis Hydref 2021, gwnaethom gyhoeddi'r Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon sydd bellach yn cynnwys cymhelliant ariannol i athrawon newydd o gymunedau ethnig leiafrifol. Rydym yn gweithredu ar hyn drwy waith megis y cynllun mentora newydd i helpu i gefnogi staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gyrraedd eu nodau, yn ogystal â datblygu camau gweithredu eraill.

Mae Prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) DARPL - Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol wedi cael ei gyflwyno ar lwybr carlam fel rhan o'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Laniswyd DARPL yn ffurfiol yn ystod hydref 2022 ac mae'n hollbwysig o ran gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru a sicrhau safonau a

dyheadau uchel i bawb.  O dan arweiniad cynghrair o bartneriaid â phrofiad proffesiynol a phrofiad bywyd, mae'n helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg i ddeall a datblygu ymarfer gwrth-hiliol.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i fonitro effeithiau a cheisio asesu a dod o hyd i dystiolaeth o effeithiau'r canllawiau hyn ar ddeilliannau dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y dyfodol.

**Costau ac Arbedion**

Nid oes unrhyw gost yn deillio o'r canllawiau penodol hyn. Bwriedir iddynt sicrhau manteision yn y sector addysg, yn enwedig i ysgolion, drwy ddealltwriaeth ehangach a gwell o anghenion plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Drwy roi enghreifftiau o ymarfer effeithiol dylai hynny annog gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, athrawon ac uwch-dimau arwain yn bennaf, i ddeall sut y gall dulliau gweithredu gwahanol hyrwyddo a gwella presenoldeb a chyfraddau cadw dysgwyr mewn addysg. Mae hyn yn gymwys i bob oedran, o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a hyd at addysg bellach ac uwch. Dylai unrhyw arbedion gael eu gwireddu drwy well ymarfer ac atal ymddieithrio ymhlith y dysgwyr, gan leihau pwysau ar wasanaethau eraill awdurdodau lleol neu eu galluogi i roi gwell cymorth i deuluoedd a phlant o'r cymunedau hyn.

**Dull**

Ni chynigir unrhyw ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â diweddaru'r canllawiau ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ysgolion a lleoliadau addysg. Canllawiau anstatudol ydynt.

**ADRAN 8**

**CASGLAID**

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Er mwyn nodi cwmpas y canllawiau, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda Fforwm y Sipsiwn a Theithwyr – y rhwydwaith o Wasanaethau Addysg i Deithwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a oedd yn cynnwys cynrychioliaeth o swyddfa'r Comisiynydd Plant a'r prosiect ‘Travelling Ahead’ a gynhelir gan Tros Gynnal Plant. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd â Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yr Awdurdodau Lleol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Fel rhan o'r broses ddatblygu, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ganfasio sampl o ysgolion mewn saith awdurdod lleol yng Nghymru, gyda charfan o tua 40 o ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er mwyn ceisio eu barn.  Mae safbwyntiau'r plant a'r bobl ifanc yn ganolog i'r gwaith hwn ac maent wedi llywio fformat a chynnwys y canllawiau.

Mae swyddogion polisi addysg ledled Cymru wedi ymgysylltu i ddatblygu'r canllawiau hyn. Mae'r timau polisi yn cynnwys meysydd Cydraddoldebau a Hawliau Dynol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Ystadegau, Cymunedau a Threchu Tlodi, Addysg Bellach ac Addysg Uwch a chynghorwyr addysg proffesiynol.

Yn ogystal â phrosiect Travelling Ahead, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â Gypsies and Travellers Wales, sy'n sefydliad yn y trydydd sector sy'n cefnogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

**Nodweddion gwarchodedig**

Mae unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig – Sipsiwn, Roma a Theithwyr – wedi cymryd rhan uniongyrchol wrth i'r ddogfen gael ei datblygu.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 9 yn diffinio nodweddion gwarchodedig hil i gynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Mae tarddiad ethnig neu genedlaethol yn cynnwys cefndir Roma. Gellir dweud bod y rhai sydd â nodweddion lliw, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol neu sy'n eu rhannu yn perthyn i grŵp hil penodol. Er nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cyfeirio'n benodol at Sipsiwn na Theithwyr, mae'r llysoedd wedi datgan bod Sipsiwn a rhai Teithwyr wedi'u gwarchod fel 'hiliau' o dan y Ddeddf.

Nid yw sefydliadau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r ddogfen ganllaw newydd hon ond mae pwysigrwydd diwallu anghenion plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n dechrau yn yr ysgol neu sy'n mynychu'r ysgol ac y mae ganddynt anghenion iaith ychwanegol, gan gynnwys y Gymraeg, wedi'i nodi yn y canllawiau hyn. Mae'r angen am gymorth iaith ychwanegol o'r fath yn arbennig o uchel ymhlith plant Roma.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod yn rhan o'r broses ddatblygu drwy Grŵp Cymunedau Ethnig Lleiafrifol a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yr Awdurdodau Lleol. Mae rhai o'r darnau cryfaf o dystiolaeth ynglŷn â'r angen i nodi a diwallu amrywiaeth o anghenion cymorth i ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r manteision a ddaw yn sgil hynny yn ymddangos yn yr adroddiadau a gyflwynir bob blwyddyn gan awdurdodau lleol mewn ymateb i Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r grant i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ei gwneud yn bosibl i ysgolion a thimau awdurdodau lleol ddefnyddio cyllid i ddarparu a chyflwyno cymorth iaith ychwanegol ar gyfer y Gymraeg (a Saesneg) a chymorth i ddysgwyr o'r cymunedau hyn, yn enwedig Roma.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Drwy diwygio canllawiau presennol Llywodraeth Cymru bydd hynny'n sicrhau bod y sefydliadau hollbwysig – ysgolion a lleoliadau addysg yng Nghymru – yn cael eu cefnogi i gynnig amgylchedd dysgu gwrth-hiliol a fydd yn fuddiol i bob dysgwr, yn enwedig plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn roedd Llywodraeth Cymru am ganfod pa heriau, gwirioneddol a chanfyddedig, sy'n bodoli i blant a phobl ifanc ac sy'n eu hatal rhag cael y budd mwyaf o'u haddysg. Gwnaethom ymgynghori â sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cymunedau; gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol; a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi dysgwyr. Nodwyd y meysydd canlynol fel y themâu a'r heriau craidd, a restrir yn nhrefn y wyddor:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Derbyniadau i ysgolion
- Presenoldeb yn yr ysgol
- Bwlio oherwydd hil
- Cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd/cymunedau
- Y Cwricwlwm – Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- Ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth ddiwylliannol
- Person penodedig / Oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn yr ysgol
- Cynhwysiant digidol
- Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Gwahardd o'r ysgol
- Cymorth ariannol a gwisg ysgol
- Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Cyrsiau galwedigaethol, Prentisiaethau, Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Mae'r canllawiau yn ystyried yr heriau unigol a nodwyd, yn amlinellu camau gweithredu Llywodraeth Cymru ac yn rhannu enghreifftiau o ymarfer effeithiol a ddefnyddir i liniaru neu oresgyn yr heriau hyn, lle y bônt ar gael.  Bydd y broses o nodi a rhannu enghreifftiau o arferion gorau newydd yn un barhaus.

Effaith gadarnhaol: mae'r canllawiau yn lledaenu cyngor ar y ffordd orau o gefnogi anghenion addysg dysgwyr a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a gwella'r ffordd yr ymgysylltir â nhw.  O ganlyniad i hyn, dylai ysgolion, llywodraethwyr ysgol, uwch-dimau arwain ac athrawon unigol ddeall yn well y rhwystrau a wynebir gan blant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth gael addysg oedran gorfodol. Dylai gefnogi gwell cydberthnasau rhwng ysgolion a chymunedau penodol a hefyd gael effaith ehangach ar yr holl ddisgyblion yn amgylchedd yr ysgol.

Dylai gwell ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymhlith y gweithlu addysg a'r gymuned arwain at well lefelau presenoldeb ymhlith dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, am eu bod yn teimlo bod eu bywydau teuluol a diwylliant eu teuluoedd yn cael eu parchu a'u deall, yn ogystal â'u dathlu. Gall gwell presenoldeb yn yr ysgol arwain at well lefelau cyrhaeddiad.

Effaith negyddol: ni ddylai fod unrhyw effeithiau o'r fath o ganlyniad i gyhoeddi a defnyddio'r canllawiau.

Dylai'r canllawiau hyn gyfrannu at nodau llesiant canlynol Llywodraeth Cymru: Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.  Gallai hefyd wneud cyfraniad bach i'r canlynol: Cymru ffyniannus; Cymru iachach.

Yr hirdymor: dylai fod gwelliannau mewn agweddau cymdeithasol mewn ysgolion, sy'n creu system addysg wrth-hiliol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, hiliaeth, bwlio; cynrychiolaeth ymhlith gweithlu addysg cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; a dylai derbyn addysg yn gynyddol ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel opsiwn cadarnhaol i'w plant a'u pobl ifanc, arwain yn yr hirdymor at wella canlyniadau iechyd i blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dylai fod gwell cyfleoedd cyflogaeth neu ariannol, a fyddai'n helpu i leihau neu ddileu risgiau tlodi hirdymor.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig: yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at greu Cymru sy'n fwy cyfartal, a chymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Rydym yn ymrwymedig i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial ac yn ffynnu mewn amgylchedd dysgu sy'n cefnogi ei anghenion.

Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb. Rydym yn cydnabod y gall rhai plant a phobl ifanc wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag dysgu oherwydd eu hamgylchiadau, eu cefndir neu eu diwylliant. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau sefydliadol a/neu systemig, megis hiliaeth.

Gwyddom o'r dystiolaeth mai dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, o bob grŵp ethnig, sydd â'r cyrhaeddiad isaf o ran cymwysterau academaiddd. Er mwyn sicrhau bod plant o'r cymunedau hyn yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn, mae angen inni roi gwybodaeth a chyngor i ymarferwyr addysg, a lleoliadau, ynglŷn â'u hanghenion penodol a'r hyn sy'n gweithio orau wrth gefnogi'r plant a'r bobl ifanc.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Er na allwn ddweud i sicrwydd y bydd cyrhaeddiad yn gwella o ganlyniad i ledaenu arferion da yn ehangach, mae'n rhesymol disgwyl gweld rhywfaint o welliant o ran cyrhaeddiad a phresenoldeb. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn nata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).


Gwelwyd gwelliannau bach yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y gellid eu priodoli i waith y Gwasanaethau Addysg i Deithwyr sy'n gweithio gydag ysgolion a chymunedau i feithrin cydberthnasau ymddiriedus, hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol, a chefnogi'r broses o bontio i'r ysgol uwchradd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn drwy fwletinau ystadegol blynyddol ac ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a rhanddeiliaid.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, mae rhwymedigaeth statudol arnom i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae tair thema ryng-gysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:




**A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith 2021-2026 Cymraeg 2050**

Ydy – mae strategaeth Cymraeg 2050 yn cadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ehangol a chynhwysol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac mae'n ffordd o uno pobl o gefndiroedd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'n amlwg yn cysylltu â Thema 1 a Thema 3.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

**Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Er mwyn sicrhau bod holl gymunedau Cymru yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddynt hwy, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn

2030. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg ac addysg. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, datblygu adnoddau ac astudiaethau achos gwrth-hiliol amlieithog er mwyn cefnogi cynnydd yn nifer y disgyblion o gymunedau ethnig leiafrifol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: adran a [HTML] | LLYW.CYMRU]

Mae swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn cael sgyrsiau ag ymchwilwyr sydd wrthi'n gwneud gwaith yn y maes hwn er mwyn deall y rhwystrau a wynebir gan deuluoedd ethnig leiafrifol i gael addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn unol â'r ymchwil, hoffai swyddogion wybod pa fylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Unwaith y byddant wedi'u nodi, caiff y camau angenrheidiol eu cymryd i fynd i'r afael â diffyg tystiolaeth a gwybodaeth.

Gall y gwaith gyda dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr, lleoliadau addysg a gwasanaethau cymorth arbenigol megis Gwasanaethau Addysg i Deithwyr a Gwasanaethau Cynghori Lleiafrifoedd Ethnig fwydo i mewn i'r gwaith hwn pan fydd swyddogion yn ystyried effaith y canllawiau eu hunain, ar ôl eu cyhoeddi.

Nid yw'r canllawiau newydd ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gymwys i oedolion ond byddant yn gymwys i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru mewn lleoliadau addysg a gynhelir, sy'n cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Felly, dylai'r canllawiau gael effaith gadarnhaol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Ni ddylai fod unrhyw effeithiau andwyol.

Bydd ymgorffori'r defnydd o egwyddor y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau addysg yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y Gymraeg, gan y bydd plant yn teimlo'n fwy hyderus i siarad Cymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad addysg. Nid yw'r diweddariad arfaethedig i'r canllawiau yn newid y defnydd o egwyddor y cynnig rhagweithiol.

Mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ddewis ac yn hygyrch i bawb yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013“) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (“y Cynllun”) ac mae'n nodi bod yn rhaid i Gynllun gynnwys cynigion awdurdod lleol ynglŷn â sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wneud y canlynol: gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal; gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal. Felly, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ddatblygu, cyhoeddi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynlluniau statudol hyn yn para am 10 mlynedd (2022-32) gyda'r amcan clir o dyfu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae sicrhau mynediad at yr iaith yn rhan allweddol o gynllun pob ardal ac mae pob awdurdod lleol yn cael ei gyfarwyddo gan ganllawiau Llywodraeth Cymru iystyried sut y bydd yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cynnwys dysgwyr Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys plant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

[Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2022 i 2032 [HTML] | GOV.WALES]

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwydd cymunedau Cymraeg eu hiaith[1] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Ni ddylai fod unrhyw effeithiau andwyol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith presennol. Efallai y bydd effaith gadarnhaol fach o ran cynnal a thyfu'r defnydd o'r iaith, gyda chymorth i blant a phobl ifanc o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr gaffael sgiliau Cymraeg a gallu cymryd rhan lawn yn eu lleoliadau cymdeithasol a'u cymuned ehangach, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Yn achos dysgwyr Roma, lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn aml, mae cymorth eisoes ar gael drwy'r Gwasanaethau Cyrhaeddiad Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol mewn ardaloedd awdurdod lleol, sy'n gweithio gydag ysgolion i gefnogi'r broses o gaffael iaith. Dylai hefyd gael effaith gadarnhaol o bosibl ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol ledled Cymru.

Mae'r weledigaeth i ehangu'r rhaglen drochi i ddisgyblion yn ymrwymiad maniffesto ac yn rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn cyfrannu at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu'r defnydd dyddiol o'n hiaith. Mae'r system addysg yn chwarae rhan allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu rhwydwaith trochi hwyr i Gymru gyfan, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau. Mae darpariaeth trochi yn y Gymraeg ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn cefnogi pob dysgwr sy'n dymuno mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg neu drosglwyddo i un. Dyrannwyd £2.2 miliwn dros 3 blynedd (2022-25) i awdurdodau lleol ddatblygu darpariaeth trochi i'w dysgwyr.

Mae darpariaeth trochi hwyr yn helpu dysgwyr sy'n dechrau addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach (fel arfer ar ôl saith oed) a disgyblion nad yw'r Gymraeg wedi bod yn rhan o'u trefn feunyddiol o bosibl, i ddysgu'r sgiliau ac ennyn yr hyder sydd eu hangen i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir rhagor o fanylion yng nghanllawiau Estyn ar ddarpariaeth trochi iaith yng Nghymru: [Darpariaeth | Estyn (llyw.cymru)]

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**

Nid yw'r canllawiau yn gymwys i oedolion, ond drwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial llawn mewn addysg, dylai fod effaith gadarnhaol ehangach ar gymunedau a theuluoedd. Drwy annog dysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr i aros mewn addysg, dylai hyn arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg, yn enwedig i ddysgwyr sydd eisoes mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn eu hysgol cyfrwng Saesneg, neu fel iaith ychwanegol. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar

[1] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig agos, yn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn dros ardaloedd daearyddol.

oedolion yn y cymunedau sy'n dewis dysgu'r Gymraeg. Ni ddylai fod unrhyw effeithiau andwyol.

Yn 2021, roedd ychydig dros 16,000 o bobl (dros dair oed) a nododd eu bod yn perthyn i un o'r pedwar grŵp ethnig leiafrifol lefel uchel yn gallu siarad Cymraeg – cynnydd o 5,000 ers 2011. Yn ogystal â chynnydd mewn *niferoedd*, roedd cynnydd hefyd yng *nghanran* y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd yn uniaethu â'r grwpiau ethnig canlynol:

- Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grŵp ethnig arall

Ers i'r Cynllun gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022, mae rhagor o ddata o Gyfrifiad 2021 wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r bwletin ystadegol ar y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth (Cyfrifiad 2021) a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ar 8 Mehefin 2023, yn dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg sy'n uniaethu â'r grwpiau ethnig lefel uchel canlynol:

- Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog,
- Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig,
- Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd,
- Grŵp ethnig arall.

Prif amcan y canllawiau newydd yw dileu rhwystrau i ddysgu a rhoi cymorth i blant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr lle bynnag y maent yn cael eu haddysg. Dylai dysgwyr gael eu hannog a'u cefnogi i astudio'r cwricwlwm llawn a manteisio ar gyfleoedd eraill a gynigir gan a thrwy ysgolion, boed hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'n rhaid i leoliadau addysg sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael cymorth yn y naill iaith a'r llall (yn dibynnu ar gategori iaith yr ysgol) er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu a'u helpu i deimlo eu bod yn rhan wirioneddol o gymuned ehangach eu hysgol a'u cymuned leol.